Grŵp Hollbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar

2 Hydref 2013

**Yn bresennol**

Ann Jones (Cadeirydd)
Donna Cushing (Ysgrifennydd Cofnodion)
Rachael Earp (Ysgrifenyddiaeth)

**Cynrychiolwyr/Rhanddeiliaid**

Richard Williams
Meryl Roberts
Norman Moore
Ross Evans
Nigel Williams
Nick Morris
Jim Edwards
Olivia Retter
Cerrys Hill
Jacqui Bond
Jonathan Arthur

**Aelodau Cynulliad**

Joyce Watson
Mike Hedges
Mark Isherwood

**Cymorth Cyfathrebu**

Rachel Smith (Dehonglwr)
Julie Doyle (Dehonglwr)
Grace Garnett (Gwefuslefarydd)
Hilary Maclean (Palanteipydd)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

   Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gill Hadfield, Kate Boddy, Paul Redfern, Debbie Thomas a Sue Williams.

   Cofnodion y Cyfarfod diwethaf 22 Ebrill 2013.

   Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd yn Llanelli.

   Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod y cofnodion ar gael ar wefan Action On Hearing Loss.

2. Camau Gweithredu o’r cyfarfod diwethaf yng Nghaerdydd

Mae cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu cadw ar hyn o bryd ar Wefan Action on Hearing Loss. Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw ymateb gan y Gweinidog Addysg hyd yn hyn. At hynny, ni chafwyd unrhyw ymateb gan y Gweinidog Iechyd hyd yn hyn ychwaith ynglŷn ag Iechyd Meddwl â cholli clyw. Mae angen mynd ar drywydd y ddau fater hyn.

Ymhellach, mewn perthynas â chyfarfod cyhoeddus mis Ebrill – roedd Jim Edwards wedi gwneud gwaith ychwanegol mewn perthynas ag addysg yn y gweithle. Gellid trafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf fel eitem sylweddol.

3. Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Mae’r adroddiad ar yr uchod eisoes wedi’i ddosbarthu i’r cynrychiolwyr. Roedd Nick Morris am dynnu sylw at 3 mater yn yr adroddiad a oedd yn berthnasol i bobl fyddar a thrwm eu clyw:-

- Asesiadau – Sut i sicrhau bod y pwynt mynediad sengl yn hygyrch a bod gan staff y lefel gywir o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o bobl fyddar, trwm eu clyw a phobl fyddar a dall. Cymhwysedd – Sut i sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd yn cydnabod anghenion gofal a chymorth pobl fyddar, pobl trwm eu clyw a phobl fyddar a dall.

- Integreiddio a chydweithredu – rhwng gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd. Yn benodol, materion byddardod a cholli clyw sydd ag elfen feddygol iddynt ond sydd ag elfen o ofal a chymorth cymdeithasol amlwg iawn hefyd. Hwyrach y bydd rhai pobl eisiau neu angen gwasanaethau er mwyn cael y canlyniadau y dymunant yn eu bywydau a’r cymorth sydd arnynt eu hangen er mwyn sicrhau’r canlyniadau.

- Gallu - Wrth asesu unigolyn mae’n rhaid i’r awdurdod lleol ystyried nid yn unig anghenion yr unigolyn a’r canlyniad y mae’r unigolyn am ei gael ond cryfderau a gallu’r unigolyn, y teulu ac eraill sydd a allai eu cynorthwyo hefyd.

Trafododd y rhai a oedd yn bresennol y mater yn helaeth gan dynnu sylw at y meysydd yr oeddent am i’r Bil eu cwmpasu. Hysbysodd Nick Morris y cynrychiolwyr bod yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynghori ar gynnwys a chynhwysiant y Bil ac roedd am iddo fod mor gynhwysfawr â phosibl. Nododd Nick Morris nad ydynt am i’r Bil gael ei gymeradwyo ac yna sylweddoli yn ddiweddarach bod angen ychwanegu ato.

Nododd y Cadeirydd os oedd yr aelodau am roi sylwadau ar yr adroddiad tybed a fyddai modd iddynt wneud hynny cyn gynted ag yr oedd modd.

4. Rhaglen Mynediad i Waith

Cyflwynodd Richard Williams Cerrys Hill o’r Adran Gwaith a Phensiynau a oedd wedi cael ei gwahodd i’r cyfarfod, ar gais y pwyllgor, i drafod pryderon yr aelodau ynglŷn â’r Rhaglen Mynediad i Waith.

Nododd Cerrys Hill efallai bod camddealltwriaeth wedi bod ynglŷn â'i rôl. Nododd nad oedd a wnelo hi ddim byd â'r Rhaglen Mynediad i Waith ac mai llysgennad ydyw sy'n gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr ar gyfer pobl anabl er mwyn eu helpu i ddatblygu cysylltiadau a rhannu arferion da. Nododd Cerrys ei bod, fodd bynnag, yn cydweithio'n agos ag Esta McVeigh, ac y bydd yn sicr o dynnu ei sylw at bryderon y grŵp mewn perthynas â'r Rhaglen Mynediad i Waith. Nododd ymhellach ei bod yn cytuno y gallai pobl â nam ar eu clyw fod yn colli allan ar gyfleoedd o ganlyniad i'r ffaith bod diffyg ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Mynediad i Waith.

Hysbysodd Cerrys y grŵp o'r cyllid a oedd ar gael o'r Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl a bod y broses ymgeisio yn ddigon syml ac y byddai'n annog sefydliadau i ymgeisio gan yr ymdrinnir â cheisiadau yn eithaf cyflym. Nododd ymhellach beth oedd ei rôl fel Llysgennad ac mai am 22 awr y mis yn unig yr oedd yn cael ei chyflogi.

Trafododd aelodau'r grŵp faterion yn ymwneud â'r Rhaglen Mynediad i Waith a rôl Cerrys Hill fel llysgennad a phenderfynwyd cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â'r Sioe Deithiol ar Anabledd er mwyn cadarnhau'r sefyllfa o ran ei hatgyfodi. Penderfynwyd cysylltu â Chanolfan Byd Gwaith hefyd a'u gwahodd i un o gyfarfodydd y pwyllgor er mwyn trafod rôl Cynghorwyr Cyflogaeth Anabledd, gan ofyn i unigolyn ddod i siarad yn fanwl am y Rhaglen Mynediad i Waith, beth sy'n cael ei ariannu gan y cynllun a sut maen nhw'n gwneud y cyhoedd a chyflogwyr yn ymwybodol o'r ffaith ei fod ar gael.

5. Y wybodaeth ddiweddaraf am Aelodau Cynulliad

Is-deitlo darllediadau teledu'r Cynulliad - Hysbyswyd y grŵp bod S4C wedi dechrau darlledu'r Cwestiynau i'r Prif Weinidog gydag iaith arwyddion. Caiff ei ddarlledu ar nos Fawrth.

6. Unrhyw Fater Arall

Rheolau Newydd y Grŵp Trawsbleidiol - hysbyswyd y rhai a oedd yn bresennol o'r rheolau newydd y mae'n rhaid i'r Grŵp gydymffurfio â nhw. Bydd Cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar Wefan y Cynulliad, mae'n rhaid cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ac mae'n rhaid paratoi Cyfrifon Blynyddol.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaethau Mynediad i Iechyd Meddwl - Hysbysodd Richard Williams yr aelodau o rwydwaith arbenigol y gwasanaeth iechyd yn y Gogledd sydd wedi bod ar gael ers blwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafwyd 19 o atgyfeiriadau gyda'r rhan fwyaf ohonynt o'r sector gwirfoddol ac ymddengys bod problem o ran derbyn atgyfeiriadau gan feddygon teulu ac o ofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gwneud gwaith gwerthfawr ac wedi llwyddo i leihau'r oedi ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Ofal Iechyd Hygyrch - nododd Richard Williams i bwysau gael ei roi ar Fyrddau Iechyd rai blynyddoedd yn ôl i wneud

gwasanaethau'n hygyrch i bobl â nam ar eu clyw. Lluniwyd y Safonau Gwybodaeth Hygyrch ar gyfer y gwasanaethau iechyd yng Nghymru a gofynnwyd i'r byrddau iechyd eu rhoi ar waith erbyn yr Hydref. Pan fydd y Safonau wedi'u lansio a phan fyddant ar waith, yna gall aelodau'r cyhoedd herio gwasanaethau gwael.

Roedd Jayne Dulson wedi gofyn i Richard Williams wneud cais am y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun "Cau'r Bwlch Cyflog". Hysbysodd y Cadeirydd y grŵp bod hyn wedi'i wneud.

7. Y cyfarfod yn dod i ben a phennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Hollbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar yng Nghaerdydd yn ystod trydedd wythnos mis Tachwedd.